



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Prifysgol Abertawe

Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff
WMGN01 - Deunydd na ellir ei ailgylchu
(Gwastraff Sach Ddu)

Awdur:	Fiona Wheatley
Cymeradwywyd gan:	Fiona Abbott
Dyddiad Adolygu:	09/11/2018

Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff NARG01 Gwastraff Na Ellir ei Ailgylchu (Sach Ddu)	
Lleoliad Cynhyrchu	Amrywiol
EWC	20 03 01
Math	Ddim yn Beryglus
Dull Gwaredu	Cyfleuster Ynni o Wastraff
Math o Fin/Sach	Biniau pedair/dwy adran - sach ddu ar gyfer bin

Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwaredu gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd gwaredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei ddioli a'i waredu drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai mai dyma'r dewis olaf.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ddioli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddioli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastig, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Yn ôl y rheoliadau, rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr, ar wahân er mwyn sicrhau ansawdd uchel y deunydd wedi'i ailgylchu.

Er nad yw'r gwastraff hwn yn cael ei ystyried yn beryglus, mae'n ofyniad dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus, ein bod yn didoli gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei roi yn y dosbarth cywir. Gall cael gwared ar wastraff peryglus yn y modd anghywir, drwy'r ffrwd gwastraff dinesig cyffredinol, arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Bydd gwastraff na ellir ei ailgylchu (sach ddu) yn cynnwys yr eitemau canlynol, ond gall gynnwys eitemau eraill hefyd:

- tywelion glas wedi'u defnyddio
- plastigion haen denau a ffoil e.e. haenen lynu, pecynnau creision
- eitemau rwber bach amrywiol, e.e. rwberi
- ffabrig/darnau bach o gortyn
- cartonau cwrog

Eitemau

Ni ddylid rhoi gwastraff na ellir ei ailgylchu (sach ddu) mewn unrhyw finiau ond y biniau gwastraff cyffredinol dynodedig (fel rheol, yn rhan o finiau gwastraff pedair/dwy adran safonol y Brifysgol). Os yw cyfansoddiad deunydd yn anhysbys, a/neu os yw wedi'i halogi, cysylltwch â'r Tîm Cynaliadwyedd (estates-waste@abertawe.ac.uk) am arweiniad a manylion pellach.


Ni ddylid **o dan unrhyw** amgylchiadau

- (a) rhoi unrhyw ddeunydd ailgylchu yn y bin gwastraff cyffredinol - mae hyn yn ein rhwystro rhag adennill neu ailgylchu deunydd gwerthfawr ac mae opsiynau eraill ar gael
- (b) rhoi unrhyw hylifau o gwbl yn y bin gwastraff cyffredinol - mae opsiynau eraill ar gael

Cyfarwyddiadau Gwaredu

Biniau Mewnol

Ni ddylid rhoi gwastraff cyffredinol mewn unrhyw finiau ac eithrio'r biniau pedair/dwy adran metel â sachau bin du sy'n agor ar y pen. Bydd yr holl finiau wedi'u labelu fel "ni ellir ei ailgylchu". Ni ddylid defnyddio biniau personol/dan y ddesg mewn swyddfeydd gan nad yw hyn yn annog pobl i ailgylchu.



Ffigwr 1 - Biniau pedair adran mewnol Prifysgol Abertawe

Storio Allanol

Ni ddylid rhoi gwastraff cyffredinol mewn unrhyw finiau ond y biniau pedair/dwy adran metel sy'n agor yn y blaen. Bydd yr holl finiau wedi'u labelu fel "Gwastraff Cyffredinol". Ni ddylid rhoi eitemau rhydd mewn unrhyw finiau eraill.



Ffigwr 2: - Binau pedair adran allanol a binau allanol contractwyr ar safleoedd Prifysgol Abertawe

Ar ôl iddynt gael eu casglu, bydd sachau du yn cael eu rhoi yn y binau pwrpasol mwy (a ddarperir gan y contractwr rheoli gwastraff), sydd i'w cael mewn mannau dynodedig ar ystadau'r Brifysgol.

Costau Gwaredu

Mae'r gost waredu wedi'i chynnwys yn narpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, does dim cost uniongyrchol i unigolion/Cyfadrannau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Serch hynny, gall unigolion leihau costau a chyfrannu at darged y Brifysgol i gyflawni cyfradd o 63% o droi gwastraff yn ynni, neu ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi, drwy beidio â defnyddio'r ffrwd wastraff gyffredinol os nad oes gwir angen.

Labelu

Gweler y templed

Am arweiniad pellach, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk



non recyclable
ni ellir ei ailgylchu